Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Graig

Ffordd Coleg
Lon Talwrn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7LP

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Y Graig

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Graig |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 367 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 285 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 33 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 25.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 57.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/01/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 08/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Graig yn gymuned ddiogel a hapus lle mae perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng staff a disgyblion yn sefydlu ethos gofalgar. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu’n frwdfrydig, yn enwedig ymysg y disgyblion ieuengaf lle mae tasgau ymarferol yn ysgogi dysgu effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, gan ddyheu am sicrhau’r lles gorau posibl ar gyfer disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn cefnogi arweinwyr yn briodol. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon strategol er mwyn cysoni’r addysgu effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sydd wedi’i wreiddio’n effeithiol yng nghyd-destun lleol yr ysgol sy’n meithrin ei pherthynas glòs â’r gymuned leol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddangos balchder gwirioneddol yn eu cynefin a’u hardal leol.

Yn yr arferion gorau, fel yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, lle cyflwynir gweithgareddau cyfoethog iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar a llythrennedd Cymraeg. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, nid yw athrawon bob tro’n darparu gweithgareddau sy’n herio dysgu’r disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn ddigon cyson. Mae athrawon yn tueddu i or-arwain y dysgu sy’n cyfyngu ar gynnydd cyson ym medrau sylfaenol disgyblion. Yn ogystal, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau gwrando’n ddigon effeithiol, sydd, yn ei dro, yn amharu ar lif yr addysgu a’r dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemateg dros amser ond prin yw’r cyfleoedd sy’n cael eu darparu i gefnogi’r disgyblion hŷn i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus ac yn dangos dealltwriaeth briodol o destunau, ac mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hŷn yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn ddigon effeithiol i gywain gwybodaeth yn annibynnol o ystod o ffynonellau. Yn ogystal, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm meysydd dysgu.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Gwella’r addysgu ar gyfer y disgyblion hŷn i sicrhau bod y gweithgareddau’n eu herio’n gyson a’u cefnogi i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Cryfhau’r prosesau gwerthuso a gwella

A3 Sicrhau bod y disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn adeiladol

A4 Darparu cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion hŷn gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif werthusiad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar, diogel a hapus sy’n cefnogi anghenion lles a dysgu llawer o ddisgyblion yn effeithiol. Mae staff yn trin disgyblion yn deg, sy’n cael effaith gadarnhaol ar agweddau buddiol disgyblion at eu dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr yn gyson. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw’r ddarpariaeth ar gyfer hybu lles disgyblion. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn darparu cefnogaeth effeithiol sy’n hybu eu datblygiad personol yn llwyddiannus. Mae’r darpariaethau arbenigol yn cael effaith gadarnhaol ar les y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag ADY yn gadarn. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn bwrpasol ac yn adnabod y rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn amserol. Mae staff yn trefnu ystod o raglenni priodol sy’n cefnogi’r  rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol â rhieni ac ystod o asiantaethau allanol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael eu cefnogi’n briodol.

Mae staff yn cynnig cwricwlwm eang ac ystod o brofiadau diddorol i ddisgyblion sy’n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn ac yn meithrin eu balchder o’r gymuned leol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn cydweithio â busnesau lleol i hyrwyddo defnydd o’r iaith Gymraeg mewn mannau gwaith. Mae hyn yn ysgogi disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol a moesegol sy’n parchu eu cymuned.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol i gefnogi dysgu’r disgyblion. Maent yn defnyddio adnoddau priodol ac yn cynnig profiadau sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd go iawn er mwyn helpu disgyblion i ymgysylltu â’r dysgu. Yn yr arferion gorau, fel yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gweithgareddau diddorol sy’n adeiladu’n fwriadus ar eu dysgu blaenorol. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus mewn ystod dda o brofiadau dysgu pwrpasol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn ymgysylltu’n frwdfrydig â’r gweithgareddau. Maent yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i dasgau ymarferol ac yn cydweithio’n effeithiol â’u cyfoedion.

Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel mewn lleiafrif o wersi, yn enwedig ar gyfer y disgyblion mwy abl. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael eu herio’n ddigonol yn eu dysgu i gyflawni’n dda. Nid yw medrau gwrando

lleiafrif y disgyblion yn datblygu'n ddigon cadarn, yn enwedig y rhai ar frig yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod tueddiad i ddisgyblion golli diddordeb yn eu tasgau sy'n amharu ar lif yr addysgu a'r dysgu. Trwy hyn, ynghyd ag agweddau dysgu llai cadarnhaol ychydig iawn o ddisgyblion, nid ydynt yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu sy'n llesteirio'r cynnydd yn eu medrau.

Yn nosbarthiadau'r disgyblion hynaf, mae tueddiad i athrawon or-arwain y gweithgareddau dysgu, sydd, yn ei dro, yn cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau yn gynyddol annibynnol. Yn yr arferion gorau, ceir enghreifftiau o holi pwrpasol gan athrawon sy'n galluogi disgyblion i feddwl ac i arwain eu dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws dosbarthiadau y disgyblion hynaf. O ganlyniad, nid yw cwestiynau sy'n cael eu holi gan athrawon yn ymestyn medrau meddwl disgyblion yn ddigon effeithiol nac yn eu cefnogi i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae llawer o staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol, yn enwedig y rhai sy'n addysgu'r disgyblion ieuengaf. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau siarad yn gadarn ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn cyd-destunau cyfarwydd. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, nid yw'r disgyblion yn gwneud cynnydd digon cadarn. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn tueddu i droi i siarad Saesneg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac nid ydynt yn datblygu eu rhuglder a'u hyder i siarad Cymraeg yn ddigon llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn darllen yn hyderus ac yn dangos dealltwriaeth briodol o destunau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hŷn yn defnyddio'u huwch fedrau darllen yn adeiladol er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o destunau darllen a chywain gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn annibynnol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion hŷn ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn gyson mewn ystod briodol o ffurfiau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau ac yn cymhwyso eu medrau yn annibynnol ar draws ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ddatblygu eu medrau ymhellach, fel wrth gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau sy'n eu herio'n briodol mewn gweithgareddau cyfoethog. Ar draws yr ysgol, mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod o feddalwedd yn bwrpasol mewn ystod o gyd-destunau.

Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn briodol sy'n eu cefnogi i adnabod y cryfderau ac ychydig o'r meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau gwerthuso bob tro'n ddigon miniog; er enghraifft, nid

ydynt yn canolbwyntio’n ddigon penodol ar agweddau pwysig o’r addysgu a’r effaith ar ddeilliannau disgyblion. Mae hyn yn golygu nad oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn na threfniadau digon strategol i flaenoriaethu’r agweddau i’w gwella yn ddigon effeithiol.

Caiff ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei hyrwyddo’n effeithiol gan athrawon. Mae disgyblion yn meithrin medrau gwerthfawr fel goddefgarwch ac ystyriaeth deg at safbwyntiau pobl eraill yn fuddiol.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion arwain a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol. Maent yn mwynhau ysgwyddo’u cyfrifoldebau ac yn cymryd eu rolau o ddifrif. Er enghraifft, mae’r cyngor ysgol yn trefnu ystod o weithgareddau i godi arian at elusennau adnabyddus sydd, yn ei dro, yn datblygu medrau pwysig fel cydweithio ac empathi.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/08/2026